Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **19 Ebrill 2017** |
| **Amser:** | **10:00 – 14:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DPG)<br>Ditectif Uwch-arolygydd Steve Cockwell (D/U-a)<br>Swyddog Staff Anthony Evans (AE)<br>Mrs Kerrie Phillips, Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd (KP)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mr Dylan Davies, Uwch Reolwr (DD)<br>Ms Tracy Hawthorne, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl (TH)<br>Miss Mair Harries, Cynorthwyydd Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (PGC)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly (PGC/DD)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro, SCHTh (SR) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/01/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 037** | **Pwynt Gweithredu: PGC/DD Pam Kelly i ystyried adeiladu ar yr ymchwil gan Brifysgol Plymouth/Portsmouth am effaith Camerâu Fideo a Wisgir.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 038** | **Pwynt Gweithredu: Cynllunio'r Gweithlu i fod ar agenda cyfarfod nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 039** | **Pwynt Gweithredu: CA i edrych ar gyrsiau rhingyllod ac arolygwyr i ystyried eu mewnbwn i gyrsiau'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 040** | **Pwynt Gweithredu: SR i gydlynu â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth** | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **ynghylch nifer y troseddau o gymharu â nifer y digwyddiadau sy'n cael eu riportio.** | |
| **PAB 041** | **Pwynt Gweithredu: Cyfradd effeithiol achosion llys i'w thrafod yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 042** | **Pwynt Gweithredu: Trin galwadau i'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref 2017 Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.** | **Ar waith** |
| **PAB 043** | **Pwynt Gweithredu: Data perfformiad yr Adran Safonau Proffesiynol i'w trafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 044** | **Pwynt Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu datganiad safbwynt ynghylch Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PAB 045** | **Pwynt Gweithredu: Sylwadau'r CHTh ar y diweddariad a gyflwynwyd gan yr Heddlu ar Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'w hanfon at y Prif Gwnstabl.** | **Wedi'i gwblhau** |

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

Agorodd y CHTh y cyfarfod trwy gyfeirio at farwolaeth dau aelod o staff Heddlu Dyfed-Powys a marwolaeth heddwas yn Llundain yn ystod yr ymosodiad terfysgol yn San Steffan. Nododd y CHTh fod HDP wedi cyfrannu i'r coffadwriaethau mewn modd ystyrlon.

Nododd y Bwrdd absenoldeb rhai aelodau.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr a Materion yn Codi

Dywedodd y CHTh ei fod yn ddiolchgar am y cofnodion cynhwysfawr a chywir, ac aeth yn ei flaen i adolygu'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

PAB 014: Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ysgrifenedig ar ddatblygu Canolbwynt Diogelu'r Cyhoedd – mae'r CHTh wedi derbyn diweddariad a nodwyd bod y pwynt gweithredu wedi'i gwblhau.

PAB 024: Yr Heddlu i ddarparu trosolwg o effaith ffactorau ariannol allanol newidiol megis y cyflog byw a phrisiau olew ar y gyllideb – Mae'r CHTh yn

fodlon bod modd cwblhau hyn gan y bydd y pwynt gweithredu'n asio a thrafodaethau y tu allan i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu – Wedi'i gwblhau.

PAB 025: Diweddariad ar gynllun y gweithlu ac adolygiad o'r galw i'w gyflwyno i SCHTh erbyn 30 Tachwedd - Mae cynllun y gweithlu ar yr agenda, felly awgrymodd y CA y dylid nodi bod hyn wedi'i gwblhau – Wedi'i gwblhau.

PAB 026: Cynrychiolydd SCHTh i fynychu cyfarfodydd misol yr Heddlu ynghylch Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac i gael mynediad at yr adroddiad sy'n tracio'r pwyntiau gweithredu - Cytunwyd o'r blaen y byddai SR neu CB yn cynrychioli SCHTh – Wedi'i gwblhau.

PAB 029: SCHTh i gydlynu â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth i nodi pa ddata perthnasol o asiantaethau partner sydd i'w cynnwys mewn proffiliau lleol trosedd difrifol ac wedi'i threfnu - Mae CHTh wedi derbyn diweddariad ar hyn - Wedi'i gwblhau.

PAB 032: SCHTh i ddarparu mwy o eglurdeb i'r Heddlu am ofynion strategol Adnoddau Dynol, i gynnwys data am dueddiadau, amserlenni, a chynllun y gweithlu - Mae'r pwynt gweithredu i'w drafod dan eitem 5b ar yr agenda – Wedi'i gwblhau.

Diolchodd y CHTh i'r Heddlu am gyflwyno papurau ymlaen llaw er mwyn cynorthwyo'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth am y manteision o gael adroddiad perfformiad misol. Cytunodd pawb y byddai hynny o fudd.

**Pwynt Gweithredu: PAB 046 SCHTh i gydlynu ag Adran Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu o ran datblygu adroddiad perfformiad misol.**

Dywedodd y CHTh fod ganddo, yn rhinwedd ei sedd ar y bwrdd goruchwylio, gyfle i ddylanwadu'r agenda, ond mae angen iddo ddeall y safbwynt gweithredol i'w gynorthwyo yn y rôl. Bydd HDP yn talu llawer llai am Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu eleni. Fodd bynnag mae hynny am wasanaeth llai, felly mae angen iddo gael datganiad safbwynt gan yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth fer am y datganiad safbwynt gan Uwch-arolygydd Huw Meredith. Cydnabu'r PG fod y gwasanaeth awyr yn well yng Ngogledd Powys nag yn ne-orllewin ardal yr Heddlu. Awgrymodd y PG y dylai'r Heddlu lunio adroddiad ar gyfer y CHTh cyn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth fer ar gapasiti awyrennau adain sefydlog.

**Pwynt Gweithredu: PAB 047 Adroddiad ar ddarpariaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i'w gyflwyno i'r CHTh cyn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (bob tri mis)**

## 3 - Cylch Gorchwyl Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu

Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl gan y Pennaeth Staff a amlygodd nod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a sut yr oedd yn ategu'r gwaith craffu a wneir gan y Bwrdd Plismona.

Gofynnodd y Pennaeth Staff a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y Cylch Gorchwyl. Dywedodd y CHTh y byddai'r Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol. Cafwyd trafodaeth fer am ymweld â'r 4 Uned Reoli Sylfaenol bob tri mis, gan fod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn gyfarfod cyhoeddus yn anad dim. Hefyd, gofynnodd y CHTh am i recordio'r cyfarfodydd a'u darlledu ar-lein at ddefnydd y cyhoedd gael eu hystyried.

**Pwynt Gweithredu: PAB 048 – Dylid ystyried recordio cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Dylid cynnal y cyfarfodydd ym mhob Uned Reoli Sylfaenol yn eu tro.**

**Pwynt Gweithredu: PAB 049 - Datblygu rhaglen gwaith y dyfodol ar gyfer Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ochr yn ochr â'r Heddlu.**

Awgrymodd y DPG fod y Bwrdd yn adolygu strwythur yr agenda fel ei fod yn bodloni gofynion y Cylch Gorchwyl.

## 4 - Adolygiad perfformiad yr Heddlu – Chwarter 4

Dywedodd y PG yr oedd cynllun y CHTh a'r Cynllun Cyflawni wedi'u cyflwyno wyneb yn wyneb i oddeutu 250 o heddweision a staff ar draws yr Heddlu. Bydd y PG a'r DPG yn cychwyn eu Sioe Deithiol ar 3 Mai i amlygu eu gweledigaeth o fewn cyd-destun y Cynllun Cyflawni. Yn ystod y cyfnod hwnnw, byddant yn lansio eu Fframwaith Perfformiad. Dywedodd y PG ei fod yn disgwyl y bydd y perfformiad yn newid yn ystod y misoedd nesaf.

Dywedodd y PG mai HDP yw'r gorau yn y wlad o ran y canran (72.9%) o bobl sy'n credu bod yr heddlu'n perfformio'n dda.

Mae'r PG wedi lansio Cynllun Gwella o ran Bodlonrwydd Dioddefwyr sy'n ceisio gwella'r lefel bodlonrwydd. Mae'r PG yn gobeithio i hyn gael ei wireddu yn ystod y

misoedd nesaf.  Dywedodd y CHTh bod angen i HDP gofio sut mae prosesau’r Tîm Dyrannu Digwyddiadau a Throsedd yn effeithio'r lefel bodlonrwydd.  Mae'r PG yn credu y bydd yn gwella adferiad y gwasanaeth.

Dywedodd y CHTh bod cofnodion troseddau rhywiol, ymddangosodd, wedi cyrraedd uchafbwynt sefydlog yn y cyfarfod diwethaf.  Fodd bynnag, mae'r lefel wedi cynyddu o 8% yn ystod y mis diwethaf.  Cyfeiriodd y PG at achosion hanesyddol oedd yn y broses o gael eu datrys, a dywedodd nad oedd 8% yn gynnydd arwyddocaol yn nhermau ystadegol.

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at y data a gyflwynwyd am 'gyhoeddi amrywiol'. Esboniwyd iddo fod y troseddau hyn yn ymwneud â materion megis secstio a blogiadau Facebook.  Dywedodd y CHTh y cafwyd trafodaeth am y modd y trinnir y rhain trwy Swyddfeydd Ieuenctid a Grwpiau Gwarediadau y Tu Allan i’r Llys, a hefyd trafodwyd a ydynt yn ganlyniadau addas ar gyfer pobl ifanc. Cafwyd trafodaeth am adolygu achosion lle mae’n anaddas bod pobl ifainc wedi'u tybio’n droseddwyr.

Dywedodd y CHTh ei bod o ddiddordeb iddo fod byrgleriaethau domestig wedi cynyddu o 9% a thybir nad yw’r cynnydd yn arwyddocaol yn ystadegol, ond bod byrgleriaethau eraill wedi cynyddu o 9% a thybir bod hynny'n arwyddocaol yn ystadegol.  Nid yw’r CHTh am i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fynd ar ôl manion y ffigyrau; fodd bynnag, hoffai ddeall rhai o'r canlyniadau ystadegol.  Cytunwyd y byddai o fudd adolygu cynnwys yr adroddiad perfformiad.

**Pwynt Gweithredu: PAB 050 - SCHTh i gydlynu ag Uned Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu i adolygu'r adroddiad perfformiad i'w ystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.**

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at uchafbwynt yn y lefel lladrata.   Dywedodd y PG fod achosion lladrata yn ardal Dyfed-Powys bob amser wedi bod yn rhai lefel isel, a'r duedd oedd bod hyn yn lladrata ar y stryd yn hytrach na lladrata arfog.

Tynnodd y PG sylw'r Bwrdd at y Canlyniadau Trosedd a Gofnodwyd.   Mae gan yr Heddlu gyfradd o 96% o euogfarnau yn y llysoedd.   Dywedodd fod problemau megis Anawsterau Tystiolaeth yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol, a bod angen gwneud rhywfaint o waith ar hynny.   Nododd y CHTh mai HDP yw'r Heddlu gorau yng Nghymru o safbwynt Cyfiawnder Troseddol.

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at y lefel o farwolaethau yn sgil gwrthdrawiadau traffig ffordd.   Dywedodd fod hyn yn broblem gyson a godir gan y cyhoedd, gyda phryderon am oryrru.   Soniodd y PG am nifer o gynlluniau gan gynnwys GanBwyll ac Ymgyrchoedd Darwen a Snap sy'n ceisio mynd i'r afael â throseddau traffig a damweiniau.   Gofynnodd y CHTh pa drefi sydd â grŵp Cadw Llygad ar Gyflymder

yn y Gymuned.   Dywedodd y PG fod y fath grwpiau'n cael eu lleoli mewn ardaloedd lle mae problem amlwg o ran traffig.

Ystyriodd y Bwrdd y perfformiad o ran safon y ffeiliau at ddibenion achos llys. Bellach, HDP yw'r ail yn y wlad o ran Cyfiawnder Trawsnewidiol.   Dywedodd y PG fod angen i HDP sicrhau ei fod yn gwneud popeth sydd angen ei wneud o ran ymchwiliadau, gyda dyhead clir i fod ar y blaen ar draws y wlad unwaith eto yn y dyfodol.

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at gyhuddiad o reolaeth gymhellol a wnaed yr wythnos flaenorol.   Dyma'r cyhuddiad cyntaf o'i fath yn HDP.   Awgrymodd y CHTh y dylid hysbysu grwpiau menywod lleol am hyn er mwyn dangos bod yr Heddlu'n barod i wneud cyhuddiadau am y drosedd benodol hon.   Mae'r PG wedi gofyn bod gweithwyr proffesiynol ar draws ardal yr Heddlu'n cael eu hysbysu am yr achos hwn, fel cyfle i ddysgu at y dyfodol.

**Pwynt Gweithredu: PAB 051 – Yr Heddlu i rannu'r gwersi am yr euogfarn ddiweddar am reolaeth gymhellol gyda phartneriaid ar ôl i'r achos ddod i ben.**

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at y lefel seiber-drosedd.  Dywedodd y PG fod HDP wedi ennill gwobr am ei weithgarwch ar seiber-drosedd.   Dywedodd fod yr Heddlu wedi cysylltu â llawer o fusnesau bach a chanolig ynghylch seiber-drosedd, a'i bod hi'n bwysig addysgu pobl er mwyn atal y fath droseddau.   Dywedodd y CHTh fod angen monitro seiber-drosedd er gwybodaeth yn y dyfodol.

Trodd y CHTh at drafod trin galwadau.   Mae trafodaeth ar y mater hwn wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref ar ôl misoedd prysur yr haf.   Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at yr amser a gymerir i ateb galwadau 101.   Dywedodd y PG y cafwyd ambell i broblem staffio, ond bod y rhain wedi'u datrys bellach.   Cafwyd trafodaeth am yr amser a gymerir i ymateb i alwadau yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, a nodwyd ei bod yn bwysig lleoli staff yn y lleoedd iawn er mwyn ymateb i'r fath alwadau.

**Safonau Proffesiynol**

Gwnaeth Ditectif Uwch-arolygydd Rockwell ychydig o sylwadau o ran perfformiad yr Adran Safonau Proffesiynol.   Roedd nifer yr achosion wedi codi o 7%.   Mae HDP yn cael 194 cwyn am bob 1,000 heddwas, sy'n golygu bod yr Heddlu yn nhraean isaf heddluoedd Cymru a Lloegr.   Agwedd gadarnhaol arall yw bod 277 o achosion wedi'u cwblhau o fewn blwyddyn, ac mae'r Heddlu'n gwneud cynnydd ar yr achosion sy'n aros eu trin ar hyn o bryd.

Mae nifer yr ymchwiliadau wedi disgyn yn sylweddol; mae nifer y datrysiadau lleol wedi codi'n sylweddol. Gofynnodd y CHTh a yw'n gadarnhaol bod nifer y datrysiadau lleol wedi codi. Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn argymell y dylid defnyddio datrysiad lleol os nad oes elfen o gamymddwyn neu droseddu.

Cafwyd trafodaeth am fanteision ymchwiliadau a datrysiadau lleol. Dywedodd y CHTh fod cyfathrebu a rhyngweithio'n allweddol o ran datrysiadau lleol.

Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod y ffurflenni Datrysiad Lleol wedi'u symleiddio er mwyn gwella’r cyfathrebu rhwng yr Heddlu a'r cyhoedd. Dywedodd y PG fod angen i ringyllod ac arolygon fod yn ddigon cadarn i argymell i heddweision ymddiheuro os na thrinnir unrhyw fater mewn modd addas.

Ar hyn o bryd, mae HDP yn cymryd 196 diwrnod i gwblhau ymchwiliad lleol; mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yr heddluoedd gorau yw rhai Swydd Caergrawnt a Suffolk. Gofynnodd y CHTh beth oedd yr heddluoedd hynny'n ei wneud y gallwn ninnau ddysgu ohono. Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod gan HDP broblem yn tarddu o'r gorffennol, ac nad oedd strwythur rheoli perfformiad wedi bodoli o ran y mater hwn hyd yma. Cafwyd trafodaeth am y modd y mae hyn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd.

Dywedodd y CHTh y gallai fod pethau y gall Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd ddysgu o'r Adran Safonau Proffesiynol o ran delio ag achosion o'r gorffennol.

Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod llawer o achosion Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd yn achosion y dylid eu trin 'yn y fan a'r lle', felly ni ddylai fod gan y Swyddfa unrhyw achos heb ei gwblhau am fwy na 10 diwrnod. Awgrymodd y CHTh y dylai'r Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Ditectif Uwch-arolygydd ymweld â heddluoedd eraill i weld sut maent yn trin cwynion.

Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd na fydd ffigyrau'r Adran Safonau Proffesiynol yn gwella yn yr ychydig fisoedd nesaf tan ar ôl datrys yr achosion hanesyddol.

Nid yw'r un o'r achosion datrysiad lleol wedi bod ar agor ers mwy na 365 diwrnod.

Trodd Ditectif Uwch-arolygydd at y mater o wirio staff. Mae'n bwysig sicrhau gwirio pob aelod o staff; ar hyn o bryd mae 27% heb eu gwirio i'r safon angenrheidiol. Mae galw mawr ar yr adran gwirio ar hyn o bryd gan gynnwys y prosiect ystadau, trosglwyddiadau heddweision ac yn y blaen. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi dweud bod angen cynllun ar HDP o fewn 6 mis i leihau'r llwyth gwaith sydd heb ei gwblhau. Dywedodd y DPG y byddai o bosibl yn ddoeth rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i wneud y gwiriadau er mwyn lleihau'r nifer sydd heb eu cwblhau. Cafwyd trafodaeth am y prosesau gwirio o fewn HDP.

**5a – Arweinyddiaeth**

Rhoddodd Tracy Hawthorne (TH) gyflwyniad i'r Bwrdd ar y strategaeth Arweinyddiaeth a Lles.

Esboniodd y cefndir i'r strategaeth, a disgrifiodd y gwaith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Roedd yr arolwg staff a gynhaliwyd wedi'i gynllunio i gynnwys meysydd ffocws amrywiol, er enghraifft Buddsoddwyr mewn Pobl, Iechyd a Diogelwch, ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Gwnaeth 37.94% o'r staff gwblhau'r arolwg.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u cyhoeddi ar y Fewnrwyd.

Datblygwyd cynllun gweithredu ar sail canlyniadau'r arolwg, a chyflwynwyd y cynllun i'r Bwrdd ynghyd â chynlluniau ar gyfer arweinyddiaeth a datblygu personol.

Bydd yr arolwg yn agor eto ar 5 Mehefin 2017, ynghyd â rhywfaint o gwestiynau ynghylch gwella.

**Pwynt Gweithredu: PAB 052 – Bod y Pennaeth Staff yn dod yn aelod o Fwrdd Calon.**

**5b – Moderneiddio'r Gweithlu**

Cyflwynodd y CA ddiweddariad byr ar fuddsoddi mewn staff, a'r sgiliau a galluoedd sy'n cael eu targedu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cyflwynodd Dylan Davies (DD) ddiweddariad ar gynllun y gweithlu. Dywedodd fod y galw'n cynnwys diffygion presennol a seiber-drosedd. Dywedodd y rhagwelwyd colli rhwng 70 a 80 o heddweision yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, derbynnir dwy garfan o heddweision trosglwyddo i mewn eleni, un ym mis Mehefin a'r llall ym mis Hydref.

Gofynnodd y CHTh am sicrwydd ar elfennau amrywiol o Gynllun y Gweithlu gan gynnwys costau, trosglwyddiadau, datblygu SCCH, a chynrychiolaeth Cymry Cymraeg o fewn yr Heddlu.

**Pwynt Gweithredu: PAB 052 - Trafod canolfan asesu recriwtio cyfrwng Cymraeg yn y cyfarfod cydweithio rhanbarthol.**

**Pwynt Gweithredu: PAB 053 - CHTh i dderbyn cynllun gweithlu tymor canol yr Heddlu.**

**Pwynt Gweithredu: PAB 054 - Adroddiad Strategol Adnoddau Dynol i'w gyflwyno i'r CHTh, gan gynnwys effaith penderfyniadau ar y praesept.**

**5c – Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd**

Rhoddodd Kerrie Phillips, y Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd, gyflwyniad ar waith Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd, gan ofyn am gefnogaeth y Bwrdd i'r modd y bwriedir gweithredu yn y dyfodol.

Rhoddodd hi gyflwyniad byr ar sefydlu'r Swyddfa. Sefydlwyd y Swyddfa yn 2015 i symleiddio trin mân gwynion. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn trin cwynion ffurfiol yn erbyn yr heddlu o dan lefel y Prif Gwnstabl, ac mae'r CHTh yn trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Mae popeth y tu allan i'r cylch gwaith hwnnw'n cael ei gyfeirio at sylw'r Swyddfa. Mae gwasanaeth Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd ar gael i bawb sydd am fynegi anfodlonrwydd. Dywedodd KP fod Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cadw llygad ar y gweithgarwch, yn arbennig gan ei fod y tu allan i'r trefniadau ffurfiol.

Mae HDP wedi dilyn esiampl Northumbria lle mae'r CHTh, Vera Bair, wedi gweithio gyda'r PG i sefydlu Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd i ddatrys problemau mor sydyn â phosibl. Dylid asesu a derbyn mynegiad o anfodlonrwydd o fewn tri diwrnod gwaith; fodd bynnag, mae'r CHTh yn awyddus bod hyn yn digwydd o fewn dau ddiwrnod gwaith, a bod y mater yn cael ei ddatrys o fewn deg diwrnod gwaith. Dywedodd KP fod tri cham i'r broses yn Nyfed-Powys. Mae'r cam cyntaf yn delio â mân bryderon, yr ail â chwynion ffurfiol, a'r trydydd ag apeliadau. O Ebrill 2018 ymlaen, mae deddfwriaeth newydd yn dweud mai penderfyniad y CHTh yw lle mae man cychwyn y broses trin cwynion yn erbyn yr heddlu.

Dywedodd KP fod y daith hyd yma o ran Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd wedi bod yn heriol. Ar ddiwedd 2016, cafodd holl aelodau'r tîm eu hadleoli i waith arall. Ymhlith y rhwystrau oedd perchnogaeth yr heddlu o'r broses, a disgynnodd ansawdd y gwasanaeth i'r fath raddau bod cryn lwyth gwaith heb ei wneud ar hyn o bryd. Dywedodd fod llawer o heddweision yn awyddus iawn i gynorthwyo'r Swyddfa.

Mae proses y Swyddfa, o ran pwy sy'n delio â beth, heb ei diffinio'n fanwl. Dywedodd KP y byddent yn hoffi diffinio'r broses yn fwy manwl, gyda chefnogaeth y Prif Heddweision. Dywedodd CM fod KP â'i thîm wedi bod allan i'r rhanbarthau i siarad â heddweision, oedd yn gychwyn da ar y gwaith, ac efallai bod angen ail-adrodd hynny. Dywedodd y PG mai'r bartneriaeth oedd newydd ei chreu, a'r prif arolygydd cymorth, ddylai fod y pwynt cyswllt. Cafwyd trafodaeth fer am sut y gellid datrys unrhyw anfodlonrwydd yn gyflym.

**Pwynt Gweithredu: KP i fynychu cyfarfodydd perfformiad rhanbarthol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd, a defnyddio Prif Arolygwyr y Bartneriaeth yn brif bwynt cyswllt.**

Dywedodd KP wrth y Bwrdd fod y Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar waith y Swyddfa bob chwe mis. Fodd bynnag, mae angen i'w phroses archwilio mewnol fod yn fwy cadarn. Awgrymodd fod angen i'r Swyddfa fod yn fwy deheuig a chyfathrebu'n gynt â'r cyhoedd er mwyn sicrhau datrysiadau uniongyrchol a sydyn. Awgrymodd y gallai bod yn ymddiheurol ddatrys llawer o broblemau, hyd yn oed os yw'n ymddiheuriad bod rhywun wedi'i gynhyrfu.

Gwahoddodd y PG KP i'r cyfarfod nesaf â Chomanderiaid Uned Reoli Sylfaenol i roi cyflwyniad byr am y Swyddfa, a dywedodd y byddai ef a'r DPG yn ei thrafod yn ystod eu Sioe Deithiol.

**Pwynt Gweithredu: KP i fynychu cyfarfod y PG â Chomanderiaid Uned Reoli Sylfaenol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd.**

**Unrhyw fater arall**

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr am fater a godwyd yn y Cydbwyllgor Archwilio o ran canran y taliadau a wnaed o fewn 30 diwrnod i gredydwyr. Roedd y CHTh wedi'i hysbysu y cynhelir gweithdy rhwng 22 a 24 Mai er mwyn cynorthwyo yn y mater hwn, a gwahoddwyd y PSA i fod yn bresennol.

**Pwynt Gweithredu: PAB 055 - Digwyddiad gwellhad cyson ar Gredydwyr.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/04/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w wneud gan: |
| **PAB 046** | **SCHTh i gydlynu ag Adran Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu o ran datblygu adroddiad perfformiad misol.** | **Pennaeth Staff** |
| **PAB 047** | **Adroddiad ar ddarpariaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i'w gyflwyno i'r CHTh cyn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (bob tri mis)** | **AE** |
| **PAB 048** | **Dylid ystyried recordio cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Dylid cynnal y cyfarfodydd ym mhob Uned Reoli Sylfaenol yn eu tro.** | **CHTh a PG** |
| **PAB 049** | **Datblygu rhaglen gwaith y dyfodol ar gyfer Bwrdd** | **Cyfarwyddwr Ystadau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Atebolrwydd yr Heddlu ochr yn ochr â'r Heddlu.** | |
| **PAB 050** | **SCHTh i gydlynu ag Uned Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu i adolygu'r adroddiad perfformiad i'w ystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.** | **SR** |
| **PAB 051** | **Yr Heddlu i rannu'r gwersi am yr euogfarn ddiweddar am reolaeth gymhellol gyda phartneriaid ar ôl i'r achos ddod i ben.** | **PG** |
| **PAB 052** | **Bod y Pennaeth Staff yn dod yn aelod o Fwrdd Calon.** | **CHTh** |
| **PAB 053** | **Trafod canolfan asesu recriwtio cyfrwng Cymraeg yn y cyfarfod cydweithio rhanbarthol.** | **CHTh** |
| **PAB 054** | **CHTh i dderbyn cynllun gweithlu tymor canol yr Heddlu.** | **PG** |
| **PAB 055** | **Adroddiad Strategol Adnoddau Dynol i'w gyflwyno i'r CHTh, gan gynnwys effaith penderfyniadau ar y praesept.** | **PG** |
| **PAB 056** | **KP i fynychu cyfarfodydd perfformiad rhanbarthol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd, a defnyddio Prif Arolygwyr y Bartneriaeth yn brif bwynt cyswllt.** | **KP** |
| **PAB 057** | **KP i fynychu cyfarfod y PG â Chomanderiaid Uned Reoli Sylfaenol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd.** | **KP** |
| **PAB 058** | **Digwyddiad gwellhad cyson ar Gredydwyr.** | **PG** |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

27 Gorffennaf 2017